BRO PEDR



POLISI A CHYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

POLICY AND STRATEGIC EQUALITY PLAN

2024-2025

Polisi a Chynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS)

1. Ein cymeriad, gwerthoedd, blaenoriaethau ac amcanion nodedig

- 1.1 Gwerthoedd yr ysgol
- 1.2 Nodweddion ein hysgol
- 1.3 Prif ffrydio cydraddoldeb mewn polisi ac arfer
- 1.4 Pennu ein hamcanion cydraddoldeb

2. Cyfrifoldebau

- 2.1 Corff Llywodraethu
- 2.2 Tîm Arwain
- 2.3 Staff – addysgu ac nad ydynt yn addysgu

3. Casglu gwybodaeth ac ymgysylltu

- 3.1 Diben a phroses
- 3.2 Mathau o wybodaeth a gesglir
- 3.3 Ymgysylltu

4. Asesiad Effaith Cydraddoldeb

5. Amcanion a Chynlluniau Gweithredu

6. Cyhoeddi ac adrodd

7. Monitro ac Adolygu

1. Ein Cymeriad, Blaenoriaethau ac Amcanion Nodedig

1.1 Gwerthoedd yr ysgol

Yn Ysgol Bro Pedr rydym yn ymrwymedig i sicrhau cydraddoldeb addysg a chyfle i'r holl ddisgyblion, staff, rhieni a gofalwyr sy'n derbyn gwasanaethau gan yr ysgol, ni waeth beth yw eu hanabledd, hil, rhyw, oedran, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil. Rydym yn ceisio datblygu diwylliant o gynhwysiad ac amrywiaeth sy'n galluogi pawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol i deimlo'n falch o'i hunaniaeth, a chyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol.

Caiff cyflawniad disgyblion ei fonitro, a byddwn yn defnyddio'r data hwn i gefnogi disgyblion, codi safonau a sicrhau addysgu cynhwysol. Byddwn yn mynd i'r afael â gwahaniaethu drwy hyrwyddo cydraddoldeb yn gadarnhaol, herio bwlio ac ystrydebau a chreu amgylchedd sy'n hyrwyddo parch at bawb. Yn Ysgol Bro Pedr, credwn fod amrywiaeth yn gryfder y dylid ei barchu a'i ddathlu gan bawb sy'n addysgu, ac yn dysgu yma, ac yn ymweld â'r ysgol.

1.2 Nodweddion ein hysgol

Strwythur Addysgiadol

Oed Cynradd
Pennaeth Cynorthwyol â throsolwg o'r ddarpariaeth: Mrs Nia Lloyd-Evans / Mrs Lowri Gregson

Dechreuir taith addysgol y disgyblion yn y dosbarth Meithrin rhan amser. Ein nod yw sicrhau y bydd y disgyblion yn hapus yn ein plith; mewn awyrgylch cartrefol lle ymrwymir i greu cysylltiadau agos a chadarnhaol rhwng y cartref a'r ysgol. Yn gyffredinol, derbynnir plant i'r Dosbarth Meithrin yn rhan-amser yn ystod y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 3 oed. Yn yr un modd, cychwynnir yn y Dosbarth Derbyn y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 4 oed. Yn gyffredinol, dysgir plant mewn dosbarthiadau oed cymysg yn bennaf er ar adegau, yn ddibynnol ar niferoedd, bydd yna ddosbarthiadau pur o un flwyddyn ysgol yn unig. Prif ffocws y ddarpariaeth oed cynradd ydy gweithredu egwyddorion Dysgu Sylfaen ac yna wrth i'r disgyblion symud drwy flynyddoedd 3 i 6, eu datblygu i fod yn ddysgwyr mwy annibynnol a'u paratoi at drosglwyddo i mewn i'r oed uwchradd.

Oed Uwchradd
Dirprwy Bennaeth â throsolwg o'r ddarpariaeth: Mrs Lowri Gregson

O flwyddyn 7 ymlaen, bydd tua hanner y flwyddyn yn dod o ysgolion eraill a'n bwriad nawr yw parhau i ddatblygu eu sgiliau gan sicrhau trosglwyddiad effeithiol o'r cyfnodau cynradd i'r uwchradd traddodiadol.

Fel arfer ceir 4/5 dosbarth ym mhob blwyddyn oed uwchradd. Caiff y disgyblion eu cofrestru gan eu hathrawon cofrestru. Cynigir cwricwlwm eang a chytbwys i'w paratoi ar gyfer gwneud dewisiadau pwysig ym mlwyddyn 9.

Wrth i'r disgyblion ddechrau'r ar eu haddysg ôl-14 Ym Mlwyddyn 9 mi fydd y disgyblion yn dewis eu pynciau TGAU ac yn dechrau ar y cyrsiau hyn ar ôl hanner tymor yn nhymor yr haf. Yn ystod Blwyddyn 10 ac 11 bydd cynnydd disgyblion yn cael ei dracio'n ofalus er mwyn rhoi pob cyfle iddynt gyrraedd eu potensial academaidd. Ym Mlwyddyn 11 bydd angen i'r disgyblion ddewis cyrsiau ôl-16 neu gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u dyfodol yn y gweithle. Mae'r ysgol yn cynnig cymorth a chyngor ymarferol i ddisgyblion wrth iddynt gwblhau ceisiadau UCAS a dewis cyrsiau ar gyfer addysg uwch drwy wahodd siaradwyr gwadd ac wrth drefnu cyfleodd i ymweld â nifer o brif ysgolion. Yn ogystal â chanolbwyntio ar waith academaidd, anogir pob disgybl i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.

1.3 Prif ffrydio cydraddoldeb mewn polisi ac arfer

Yn ogystal â'r camau penodol a amlinellir yn y cynllun hwn, mae'r ysgol yn gweithredu cyfle cyfartal yn ei harfer o ddydd i ddydd yn y ffyrdd canlynol.

Rydym yn ceisio rhoi'r cyfle i bob disgybl lwyddo a chyrraedd y lefel uchaf o gyflawniad personol. I wneud hyn, byddwn yn:

- defnyddio data cyd-destunol i wella'r ffyrdd rydym yn darparu cefnogaeth i unigolion a grwpiau o ddisgyblion;
- monitro data cyflawniad yn ôl y nodweddion amrywiol a warchodir a chymryd camau mewn perthynas ag unrhyw fylchau;
- ystyried cyflawniad yr holl ddisgyblion wrth gynllunio ar gyfer dysgu yn y dyfodol a gosod targedau heriol;
- sicrhau cydraddoldeb mynediad i'r holl ddisgyblion a'u paratoi ar gyfer bywyd mewn cymdeithas amrywiol;
- defnyddio deunyddiau sy'n adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth yr ysgol a'r gymuned leol o ran y nodweddion amrywiol a warchodir, heb ystrydebau;
- hyrwyddo agweddau a gwerthoedd a fydd yn herio ymddygiad hiliol a gwahaniaethol arall neu ragfarn;
- darparu cyfleoedd i ddisgyblion werthfawrogi eu diwylliant eu hunain a dathlu amrywiaeth diwylliannau eraill;
- ceisio cynnwys yr holl rieni wrth gefnogi addysg eu plant;
- annog trafodaeth yn yr ystafell ddosbarth a'r ystafell staff am faterion cydraddoldeb sy'n myfyrio ar ystrydebau cymdeithasol, disgwyliadau a'r effaith ar ddysgu;
- cynnwys dulliau addysgu ac ystafell ddosbarth sy'n briodol i boblogaeth yr ysgol gyfan, sy'n gynhwysol ac yn adlewyrchu ein disgyblion

1.4 Pennu ein hamcanion cydraddoldeb

Rydym yn cydnabod ein dyletswydd a'n cyfrifoldeb i sefydlu cydraddoldeb i'n holl ddysgwyr, staff, aelodau eraill cymuned yr ysgol a defnyddwyr gwasanaeth, ni waeth beth yw eu hil, rhyw, anabledd, ailbennu rhywedd, tueddfryd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gred, priodas neu bartneriaeth sifil fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2012.

Diben ein **Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS)** yw cyflawni'r dyletswyddau i hyrwyddo cydraddoldeb i bobl â 'nodweddion a warchodir', a gwreiddio tegwch a chydraddoldeb yng nghalon cymuned ein hysgol ac ym mhob agwedd ar gynlluniau a pholisïau ein hysgol.

Wrth bennu'r amcanion cydraddoldeb ar gyfer yr ysgol hon, byddwn yn rhoi ystyriaeth briodol i ddyletswydd gyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb:

1. Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf;
2. Datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir perthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu; mae hyn yn golygu
    a. dileu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir berthnasol sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno
    b. cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir berthnasol sy'n wahanol i anghenion y bobl nad ydynt yn ei rhannu
    c. annog pobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir berthnasol i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn unrhyw weithgaredd arall lle mae cyfranogaeth gan bobl o'r math yn anghymesur o isel
3. Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir berthnasol a'r bobl nad ydynt yn ei rhannu

Pennir ein CCS ac Amcanion Cydraddoldeb yng ngoleuni'r canlynol:

- Yr amcanion cydraddoldeb rhanbarthol a nodwyd yn **atodiad 1;**
- barn a fynegwyd gan randdeiliaid sydd wedi bod yn rhan o ddatblygu'r cynllun;
- materion sy'n codi o ganlyniad i ddadansoddi ein data disgyblion e.e. cyrhaeddiad bechgyn o'u cymharu â merched;

Bydd cyflwyno ein CCS yn cyfrannu at ein holl gamau gweithredu a'n hymrwymiadau i:

- godi safonau;
- lleihau'r bwlch cyrhaeddiad mewn deilliannau i blant a phobl ifanc;
- gwella deilliannau fel y'u disgrifir yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc (CPPI);
- hyrwyddo cydlyniant cymunedol

Amlinellir Amcanion Cydraddoldeb yr Ysgol yn **adran 5 ac Atodiad 2.**

2. Cyfrifoldebau

2.1 Corff Llywodraethu

Mae'r corff llywodraethu wedi nodi ei ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn y cynllun hwn, a bydd yn parhau i wneud popeth o fewn ei allu i sicrhau bod yr ysgol yn gwbl gynhwysol i ddisgyblion, ac yn ymateb i'w hanghenion, yn seiliedig ar y nodweddion a warchodir amrywiol. Mae'r Corff Llywodraethu yn:

- ceisio sicrhau na wahaniaethir yn erbyn pobl wrth iddynt wneud cais am swyddi yn ein hysgol
- cymryd yr holl gamau rhesymol i sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn rhoi mynediad i bobl ag anableddau, a hefyd yn ymdrechu i wneud cyfathrebu mor gynhwysol â phosib i rieni, gofalwyr a disgyblion
- sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unrhyw blentyn pan fydd yn ein hysgol

Er mwyn cyflawni ei ddyletswydd adrodd, bydd y corff llywodraethu'n adrodd ar gynnydd y CCS bob blwyddyn, fel rhan o'i Adroddiad Blynyddol i rieni.

2.2 Tîm Arwain

Mae'r Tîm Arwain yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn dileu gwahaniaethu drwy:

- roi CCS yr ysgol ar waith, gyda chefnogaeth y Corff Llywodraethu wrth wneud hynny;
- sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u dyletswyddau o dan y ddeddf ac wedi'u hysbysu'n llawn am CCS ac amcanion cydraddoldeb ein hysgol;
- sicrhau bod yr holl baneli apwyntiadau'n ystyried y cynllun hwn, fel na wahaniaethir yn erbyn unrhyw un o ran cyfleoedd cyflogaeth neu hyfforddiant;
- hyrwyddo egwyddor cyfle cyfartal wrth ddatblygu'r cwricwlwm, a hyrwyddo parch at bobl eraill a chyfle cyfartal i gymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol;
- trin holl achosion triniaeth annheg ac unrhyw achosion o fwlio neu wahaniaethu, gan gynnwys digwyddiadau hiliol, yn ôl polisïau'r awdurdod a'r ysgol
- sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o hyn

2.3 Staff – addysgu ac nad ydynt yn addysgu

Mae'r ysgol yn ystyried cydraddoldeb i bawb yn gyfrifoldeb i bawb. Mae pob aelod o staff yn cyfrannu at sicrhau bod ein hysgol yn gymuned deg, gyfiawn a chydlynol drwy:

- sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael eu trin yn deg, yn gyfartal a chyda pharch, a bydd yn cynnal ymwybyddiaeth o CCS yr ysgol;
- ymdrechu i ddarparu deunydd a fydd yn rhoi delweddau cadarnhaol yn seiliedig ar nodweddion a warchodir ac yn herio delweddau ystrydebol;
- herio unrhyw achosion o ragfarn, hiliaeth neu homoffobia, a chofnodi unrhyw ddigwyddiadau difrifol fel y rhagnodir ym mholisïau'r ALl a'r ysgol e.e. adrodd am ddigwyddiadau hiliol;
- cefnogi gwaith staff atodol a chefnogi a'u hannog i ymyrryd mewn ffordd gadarnhaol yn erbyn unrhyw ddigwyddiadau gwahaniaethol

3. Casglu gwybodaeth ac ymgysylltu

3.1 Diben a phroses

Mae casglu gwybodaeth yn hanfodol i'n cefnogi i benderfynu pa gamau gweithredu i'w cymryd i wella cydraddoldeb a dileu gwahaniaethu yng nghymuned yr ysgol. Yn dilyn hyn, mae'r wybodaeth hefyd yn ein helpu i adolygu ein perfformiad, felly mae'n rhaid iddi fod yn ddigon manwl i'n galluogi i fesur sut rydym yn cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb. Mae'r wybodaeth hefyd yn ein helpu i wneud asesiad effaith manwl gywir a nodi pa rai o amcanion yr ysgol a gyflawnwyd, a'r hyn y mae angen i ni ei wneud yn well.

Mae ymgysylltu hefyd yn seiliedig ar yr wybodaeth a gasglwyd ynghylch cynrychiolaeth grwpiau gwahanol. Rydym yn ceisio gwneud hyn mor llawn â phosib wrth gydnabod materion sensitifrwydd o ran y gwahanol nodweddion a warchodir. Rydym yn cymryd camau penodol i sicrhau bod plant a phobl ifanc anabl, rhieni a gofalwyr yn cael eu cynnwys yn ôl eu hawl. Y rheswm pam mae'r cynnydd hwn yn bwysig yw er mwyn deall holl amrywiaeth anghenion cymuned yr ysgol.

3.2 Mathau o wybodaeth a gesglir

Mae'r amrywiaeth eang o wybodaeth a gesglir i gefnogi ein cynllunio a chamau i hyrwyddo cydraddoldeb a dileu gwahaniaethu yn cynnwys y canlynol:

- dadansoddi'r ymatebion a dderbyniwyd gan ddisgyblion, rhieni/gofalwyr, staff, llywodraethwyr a grwpiau cymunedol yn dilyn dosbarthu holiadur i bennu materion cydraddoldeb. Nid yw'r cwestiynau a gynhwysir yn yr holiadur yn amlygu nodweddion a warchodir penodol, ond maent yn ceisio barn gyffredinol rhanddeiliaid;
- nodi plant a phobl ifanc, rhieni, gofalwyr, staff a defnyddwyr eraill yr ysgol sy'n cynrychioli'r nodweddion a warchodir gwahanol, os yw'n bosib ac yn briodol. Mae hyn yn ein helpu i ddatblygu a monitro'r cynllun. Gwneir ymdrechion cynhwysfawr a sensitif i gasglu gwybodaeth gywir a bodloni gofynion diogelu data, yn ogystal â'n dyletswydd i sicrhau gwybodaeth gywir sy'n ymwneud ag ethnigrwydd a mamiaith;
- cyrhaeddiad disgyblion a data cynnydd sy'n ymwneud â grwpiau gwahanol;
- ceisio barn plant a phobl ifanc a'u cynnwys mewn ffordd sy'n gweld gwerth i'w cyfraniad;
- gwybodaeth am sut mae grwpiau gwahanol yn cael mynediad i'r cwricwlwm cyfan a sut maent yn gwneud dewisiadau rhwng y dewis o bynciau;
- dewisiadau chwaraeon a gweithgareddau fesul grŵp;
- gweithgareddau cyfoethogi fesul grŵp
- dadansoddi data gwaharddiadau wedi'i ddadansoddi fesul grŵp;
- cofnodion bwlio ac aflonyddu ar sail unrhyw fater cydraddoldeb
- data ar recriwtio, datblygu a chadw gweithwyr;
- canlyniadau gweithgareddau sy'n hyrwyddo ymgysylltu cymunedol a chydlyniant cymunedol;
- canlyniadau camau a gymerwyd i sicrhau cynnwys rhieni ac eraill y nodwyd ei bod yn anodd ymgysylltu â hwy;

3.3 Ymgysylltu

Mae'r ysgol yn cynnwys **rhanddeiliaid** gan gynnwys plant a phobl ifanc, staff, rhieni/gofalwyr, llywodraethwyr a phobl eraill sy'n defnyddio'r ysgol o ran dyletswyddau cydraddoldeb. Rydym yn ystyried dulliau cyfathrebu o ddewis y rhai rydym yn ymgynghori â hwy e.e. deunydd a gyfieithwyd neu gyfleusterau dehongli ar gyfer pobl anabl neu'r sawl y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt neu sydd newydd gyrraedd y wlad hon.

Ystyrir barn rhanddeiliaid a grwpiau eraill sy'n ymwneud â chydraddoldeb o ddifrif wrth i ni bennu blaenoriaethau. Prif fforwm ar gyfer ymgynghori ydy'r cynghorau ffês, sy'n cyfarfod bob hanner tymor.

4. Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Mae asesiad effaith yn cyfeirio at adolygu'r holl gynlluniau a pholisïau presennol ac arfaethedig er mwyn ein helpu i weithredu i hyrwyddo cydraddoldeb ac i sicrhau nad yw unrhyw berson o dan anfantais o ganlyniad i weithgareddau'r ysgol oherwydd gwahaniaethu. Mae asesiadau effaith yn broses barhaus i sicrhau bod cynlluniau a pholisïau'r ysgol yn cael eu datblygu mewn ffordd gynhwysol a theg.

Fel rhan o gydymffurfio'r ysgol hon â dyletswyddau penodol y Ddeddf, byddwn yn parhau i gyflawni asesiad effaith o bob polisi a chynllun newydd cyn ei roi ar waith. Yn yr un modd, byddwn yn cyflawni asesiad effaith o'n polisïau a'n cynlluniau presennol pryd bynnag y cânt eu hadolygu. Yn y modd hwn, caiff asesiadau effaith eu cynnwys yn nhrefn adolygu a diwygio pob polisi'r ysgol.

Lle mae asesiadau effaith wedi'u cyflawni, byddant yn dylanwadu ar newidiadau i bolisi ac adolygiad y CCS ei hun.

5. Amcanion a Chynlluniau Gweithredu

Ein Hamcanion fel ysgol ydy

1. Sicrhau safonau dysgu ac addysgu rhagorol er mwyn datblygu potensial pob disgybl yn llawn a'u paratoi i fod yn ddysgwyr gydol oes.

2. Cefnogi pob disgybl i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol effeithiol er mwyn cael mynediad at holl bynciau'r cwricwlwm.

3. Meithrin hinsawdd addysgiadol lle mae staff a disgyblion yn awyddus i arloesi a lle gwelir anawsterau fel cyfleoedd i ddysgu a datblygu.

4. Datblygu ymwybyddiaeth a balchder yn ieithoedd, diwylliant, traddodiadau ac etifeddiaeth Cymru ymysg ein disgyblion a fydd yn sail i ehangu eu gorwelion, eu gwybodaeth a'u hymwybyddiaeth o gydberthynas Cymru ag Ewrop a'r byd.

5. Datblygu perthynas lwyddiannus rhwng yr ysgol, rhieni a chymuned eang ac amrywiol Bro Pedr er mwyn cefnogi dysgu'r disgyblion.

Mae gennym gynlluniau gweithredu sy'n cynnwys yr holl nodweddion a warchodir perthnasol (Atodiad 2). Mae'r rhain yn disgrifio sut rydym yn cymryd camau i gyflawni'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol.

Mae ein Cynlluniau Gweithredu wedi'u croesgyfeirio â Chynllun Gwella'r Ysgol sy'n sicrhau eu bod yn cael eu gwirio, eu monitro a'u gwerthuso'n drefnus.

Mae'r cynlluniau gweithredu'n dangos:

- amcanion a chamau gweithredu penodol
- effaith ddisgwyliedig a dangosyddion cyflawniad (meini prawf)
- amserlenni clir
- gan bwy y mae'r cyfrifoldeb arweiniol
- goblygiadau o ran adnoddau
- dyddiadau penodol ar gyfer asesiad effaith ac adolygiad.

Mae'r ysgol yn gwerthuso effeithiolrwydd y CCS yn rheolaidd, drwy'r corff llywodraethu a chydag Estyn pan gaiff yr ysgol ei harolygu.

6. Cyhoeddi ac adrodd

Mae'r ysgol yn darparu copi o'i CCS a'i chynllun gweithredu i gyflawni ei hamcanion cydraddoldeb mewn amrywiaeth o fformatau ac yn sicrhau ei fod ar gael i rieni/gofalwyr ac eraill, gan gynnwys y sawl y nodir ei bod yn anodd ymgysylltu â hwy. Mae prosbectws yr ysgol yn cynnwys cyfeiriad at y CCS a'r gwerthoedd sy'n sail iddo.

Mae'r ysgol yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar y cynnydd a wnaed ar y cynlluniau gweithredu ac effaith y CCS ei hun ar ethos yr ysgol ac arfer yn yr ysgol. Cyflawnir hyn fel rhan o Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr.

Caiff yr holl ddata a gesglir ei ddefnyddio at ddibenion dadansoddi tueddiadau', fesul nodwedd a warchodir, o ran perfformiad, defnyddio gwasanaethau a gynigir gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol a'u boddhad ohonynt. Caiff gwybodaeth o'r fath ei storio ar wahân i wybodaeth bersonol sy'n nodi'r unigolyn. Er mwyn amddiffyn hunaniaeth yr unigolion pan gyhoeddir gwybodaeth am dueddiadau, ni chyhoeddir unrhyw gyfrif sy'n cynnwys llai na 5 unigolyn.

7. Monitro ac Adolygu

Fel rhan o'n cyfrifoldeb am fonitro'r CCS, rydym yn ymrwymo i:

- ailedrych ar yr wybodaeth a'r data a ddefnyddiwyd i nodi blaenoriaethau ar gyfer y CCS a'r cynlluniau gweithredu, a'i ddadansoddi. Mae hyn yn cynnwys defnyddio trosolwg o'r canlyniadau;
- defnyddio'r asesiadau effaith i sicrhau bod y camau gweithredu a gymerwyd yn cael effaith gadarnhaol ar draws yr holl nodweddion a warchodir, bod hyrwyddo cydraddoldeb yn ganolog i gynllunio'r ysgol a bod gwahaniaethu'n cael ei ddileu'n effeithiol.

Mae adolygu'r CCS yn cyfeirio'r gwaith o'i ddiwygio, pennu blaenoriaethau newydd a chynlluniau gweithredu. Mae'r broses hon yn parhau i:

- gynnwys amrywiaeth llawn o randdeiliaid;
- bod yn seiliedig ar dystiolaeth – defnyddio gwybodaeth a data mae'r ysgol wedi'u casglu a'u dadansoddi;
- defnyddio'r dystiolaeth i gynnal asesiad effaith manwl gywir a fydd yn cyfeirio blaenoriaethau

Policy and Strategic Equality Plan (CCS)

Our distinctive character, values, priorities and objectives

School values
Features of our school
Mainstreaming equality in policy and practice
Setting our equality objectives

2. Responsibilities

2.1 Governing Body

2.2 Leadership Team

2.3 Staff – teaching and non-teaching

3. Intelligence gathering and engagement

3.1 Diben a phroses

3.2 Types of information collected

3.3 Engagement

4. Equality Impact Assessment

5. Objectives and Action Plans

6. Publication and reporting

7. Monitoring and Review

1. Our Distinctive Character, Priorities and Objectives

1.1 School values

At Ysgol Bro Pedr we are committed to ensuring equality of education and opportunity for all pupils, staff, parents and carers who receive services from the school, regardless of disability, race, gender, age, sexual orientation, religion or belief, gender reassignment, pregnancy and maternity, marriage and civil partnership. We seek to develop a culture of inclusion and diversity that enables everyone associated with the school to feel proud of their identity, and to participate fully in the life of the school.

Pupil achievement will be monitored, and we will use this data to support pupils, raise standards and ensure inclusive teaching. We will tackle discrimination by positively promoting equality, challenging bullying and stereotypes and creating an environment that promotes respect for all. At Ysgol Bro Pedr, we believe that diversity is a strength that should be respected and celebrated by all who teach, learn here, and visit the school.

1.2 Features of our school

Educational Structure

Primary Age
Assistant Headteacher with overview of provision: Nia Lloyd Evans / Lowri Gregson

The pupils' educational journey begins in the part-time Nursery class. We aim to ensure that the pupils will be happy among us; in a homely atmosphere where it is committed to creating close and positive links between home and school. Children are generally admitted to Nursery part-time during the term after their 3rd birthday. Similarly, they start in Reception the term after their 4th birthday. Children are generally taught mostly in mixed age classes although at times, depending on numbers, there will be pure classes of only one school year. The main focus of primary age provision is to implement Foundation Learning principles and then as pupils progress through years 3 to 6, develop them into more independent learners and prepare them to transition into secondary age.

Secondary Age
Deputy Headteacher with overview of provision: Lowri Gregson

From year 7, around half of the year will come from other schools and our intention now is to continue to develop their skills ensuring an effective transition from the primary to traditional secondary stages.

There are usually either 4 or 5 classes in each secondary age year. Pupils are registered by their registration teachers. A broad and balanced curriculum is offered to prepare them for making important choices in year 9.

As pupils begin their post-14 education in Year 9 pupils will choose their GCSE subjects and start these courses after half term in the summer term. During Year 10 and 11 pupils' progress

will be carefully tracked to give them every opportunity to reach their academic potential. In Year 11 pupils will need to choose post-16 courses or make decisions about their future in the workplace. The school offers practical support and advice to pupils as they complete UCAS applications and select courses for higher education by inviting guest speakers and in arranging opportunities to visit a number of major schools. As well as focusing on academic work, all pupils are encouraged to take part in extra-curricular activities.

1.3 Mainstreaming equality in policy and practice

In addition to the specific steps outlined in this plan, the school implements equal opportunities in its day-to-day practice in the following ways.

We seek to give all pupils the opportunity to succeed and reach the highest level of personal achievement. To do this, we will:

- use contextual data to improve the ways in which we provide support to individuals and groups of pupils;
- monitor achievement data according to the various characteristics protected and take action in relation to any gaps;
- consider the achievement of all pupils in planning for future learning and setting challenging targets;
- ensuring equality of access for all pupils and preparing them for life in a diverse society;
- use materials that reflect the diversity of the school population and local community in terms of the various protected characteristics, without stereotypes;
- promote attitudes and values that will challenge racist and other discriminatory behavior or prejudice;
- providing opportunities for pupils to appreciate their own culture and celebrate the diversity of other cultures;
- seek to involve all parents in supporting their children's education;
- encourage discussion in the classroom and staff room about equality issues that reflect on social stereotypes, expectations and the impact on learning;
- include teaching and classroom methods appropriate to the whole school population, inclusive and reflective of our pupils

1.4 Setting our equality objectives

We recognise our duty and responsibility to establish equality for all our learners, staff, other members of the school community and service users, regardless of race, sex, disability, gender reassignment, sexual orientation, pregnancy and maternity, religion or belief, marriage or civil partnership as defined in the Equality Act 2012.

The purpose of our **Strategic Equality Plan (CCS)** is to fulfil the duties to promote equality for people with 'protected characteristics', and to embed fairness and equality in the heart of our school community and in all aspects of our school plans and policies.

In setting the equality objectives for this school, we will give due consideration to the general duty of the Equality Act:

- Eliminate discrimination, harassment, vitriol and any other conduct prohibited under the Act;
- Develop equality of opportunity between people who share a relevant protected trait and people who do not; This means

- eliminate or reduce disadvantages suffered by people who share a relevant protected characteristic associated with that feature
- take steps to meet the needs of people who share a relevant protected trait that differs from the needs of people who do not share it
- encourage people who share a relevant protected characteristic to participate in public life or in any other activity where participation by people of the type is disproportionately low

Build good relationships between people who share a relevant protected trait and those who don't share it

Our CCS and Equality Objectives are determined in light of the following:

The regional equality objectives set out in **appendix 1;**
views expressed by stakeholders who have been involved in the development of the scheme;
issues arising as a result of analysing our pupil data e.g. the attainment of boys compared to girls;

The introduction of our CCS will contribute to all of our actions and commitments to:

raising standards;
reducing the attainment gap in outcomes for children and young people;
improving outcomes as described in the Children and Young People's Plan (CPPI);
promoting community cohesion

The School's Equality Objectives are outlined in **section 5 and Appendix 2.**

2. Responsibilities

2.1 Governing Body

The governing body has set out its commitment to equality and diversity in this scheme, and will continue to do all it can to ensure that the school is fully inclusive to pupils, and responsive to their needs, based on the various protected characteristics. The Governing Body is:

- trying to ensure that people are not discriminated against when they apply for jobs at our school
- take all reasonable steps to ensure that the school environment provides access to people with disabilities, and also strives to make communication as inclusive as possible for parents, carers and pupils
- ensuring that no child is discriminated against when in our school

To fulfil its reporting duty, the governing body will report on the progress of the CCS each year, as part of its Annual Report to parents.

2.2 Leadership Team

The Leadership Team promotes equality and eliminates discrimination by:

- implementing the school's CCS, with the support of the Governing Body in doing so;
- ensure that all staff are aware of their duties under the act and fully informed of CCS and our school's equality objectives;
- ensure that all appointment panels take this scheme into account, so that no one is discriminated against in terms of employment or training opportunities;
- promoting the principle of equality of opportunity in curriculum development, and promoting respect for others and equal opportunities to participate in all aspects of school life;
- treat all unfair treatment cases and any incidents of bullying or discrimination, including racial incidents, according to authority and school policies
- making sure all staff are aware of this

2.3 Staff – teaching and non-teaching

The school sees equality for all as a responsibility for all. All staff contribute to ensuring that our school is a fair, just and cohesive community by:

to ensure that all pupils are treated fairly, equally and with respect, and will maintain awareness of the school's CCS;

strive to provide material that will give positive images based on protected characteristics and challenge stereotypical images;

challenge any incidents of prejudice, racism or homophobia, and record any serious incidents as prescribed in LA and school policies e.g. reporting racist incidents;

support the work of ancillary and support staff and encourage them to intervene in a positive way against any discriminatory incidents

3. Intelligence gathering and engagement

3.1 Diben a phroses

Gathering information is vital to support us in determining what actions to take to improve equality and eliminate discrimination in the school community. Following this, the information also helps us to review our performance, so it must be detailed enough to enable us to gauge how we are carrying out our equality duties. The information also helps us to make a precise impact assessment and identify which of the school's objectives have been achieved, and what we need to do better.

Engagement is also based on the information gathered regarding the representation of different groups. We try to make this as full as possible while recognising sensitivity issues with regard to the different protected features. We are taking specific steps to ensure that disabled children and young people, parents and carers are covered by their right. The reason why this increase is important is to understand the full diversity of the needs of the school community.

3.2 Types of information collected

The wide range of information collected to support our planning and actions to promote equality and eliminate discrimination include the following:

Analysing responses received from pupils, parents/carers, staff, governors and community groups following the distribution of a questionnaire to determine equality issues. The questions included in the questionnaire do not highlight specific protected characteristics, but seek the general views of stakeholders;

identify children and young people, parents, carers, staff and other users of the school who represent the different protected characteristics, if possible and appropriate. This helps us develop and monitor the plan. Comprehensive and sensitive efforts are made to collect accurate information and meet data protection requirements, as well as our duty to ensure accurate information relating to ethnicity and mother tongue;

pupil attainment and progress data relating to different groups;

seek the views of children and young people and engage them in a way that sees value to their contribution;

information about how different groups access the whole curriculum and how they make choices between the choice of subjects;

sports and activity options by group;

enrichment activities by group

group-by-group analysis of exclusion data;

bullying and harassment records based on any equality issue

data on employee recruitment, development and retention;

the results of activities that promote community engagement and community cohesion;

the results of steps taken to ensure the involvement of parents and others identified as difficult to engage with;

3.3 Engagement

The school is made up of **stakeholders** including children and young people, staff, parents/carers, governors and other people who use the school in terms of equality duties. We are considering communication methods of selecting those we consult e.g. translated material or interpretive facilities for disabled people or those for whom English is an additional language or who has just arrived in this country.

The views of stakeholders and other groups concerned with equality are taken seriously as we set priorities. A main forum for consultation is the façade councils, which meet every half term.

4. Equality Impact Assessment

An impact assessment refers to reviewing all existing and proposed plans and policies to help us act to promote equality and to ensure that no person is disadvantaged as a result of school activities due to discrimination. Impact assessments are an ongoing process to ensure that school plans and policies are developed in an inclusive and equitable way.

As part of this school's compliance with the specific duties of the Act, we will continue to carry out an impact assessment of all new policies and plans before implementing it. Similarly, we will carry out an impact assessment of our existing policies and plans whenever they are reviewed. In this way, impact assessments are included in the school's review and revision regime of all policies.

Where impact assessments have been undertaken, they will influence changes to policy and the CCS's own review.

5. Objectives and Action Plans

Our Objectives as a school are

- Ensure excellent standards of learning and teaching to fully develop the potential of all pupils and prepare them to become lifelong learners.

- Support all pupils to develop effective literacy, numeracy and digital competence skills to access all curriculum subjects.

- Foster an educational climate where staff and pupils are keen to innovate and difficulties are seen as opportunities to learn and develop.

- Develop awareness and pride in Wales' languages, culture, traditions and legacy among our pupils which will underpin expanding their horizons, knowledge and awareness of Wales' relationship with Europe and the world.

- Develop successful relationships between the school, parents and the wide and diverse community of Bro Pedr to support pupils' learning.

- We have action plans that include all relevant protected features (Appendix 2). These describe how we take steps to carry out the general and specific duties.

- Our Action Plans are cross-referenced with the School Improvement Plan which ensures they are checked, monitored and evaluated in an orderly fashion.

The action plans show:

- specific objectives and actions
- expected impact and achievement indicators (criteria)
- clear timelines
- by whom is the guiding responsibility
- resource implications
- specific dates for impact assessment and review.

The school regularly evaluates the effectiveness of the CCS, through the governing body and with Estyn when the school is inspected.

6. Publication and reporting

The school provides a copy of its CCS and action plan to achieve its equality objectives in a variety of formats and makes it available to parents/carers and others, including those identified as difficult to engage with. The school prospectus contains a reference to the CCS and the values behind it.

The school presents an annual report on the progress made on the action plans and the impact of the CCS itself on the ethos of the school and practice at the school. This is achieved as part of the Governor's Annual Report.

All data collected will be used for trend analysis purposes', per protected characteristics, in terms of performance, use of and satisfaction of services offered by the school or local authority. Such information is stored separately from personal identifying information. To protect the identity of the individuals when trend information is published, no account containing less than 5 individuals is published.

7. Monitoring and Review

As part of our responsibility for monitoring the CCS, we commit to:

- revisit and analyse the information and data used to identify priorities for the CCS and action plans. This includes using an overview of the results;
- using the impact assessments to ensure that actions taken have a positive impact across all protected features, that promoting equality is central to school planning and that discrimination is effectively eradicated.

Reviewing the CCS directs reform, setting new priorities and action plans. This process continues:

involve a full range of stakeholders;
being evidence-based – using information and data the school has collected and analysed;
using the evidence to carry out a precise impact assessment that will direct priorities